Canllawiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer adroddiadau ecoleg sy'n berthnasol i Ystlumod a Rhywogaethau Eraill Ewropeaidd a Ddiogelir

Sut mae'r ddogfen hon wedi ei threfnu

Mae'r ddogfen arweiniol hon mewn tair rhan.

Mae Rhan 1 yn delio gyda chefndir y canllawiau ac yn ystyried pam fo'u hangen a pwy fyddai efallai yn gwneud defnydd ohonynt. Mae cyd destun y canllawiau hefyd wedi cael eu hamlinellu, yn nhermau cyfrifoldebau APCE, a chyngor ac arweiniad arall sydd wedi'i gyhoeddi.

Mae Rhan 2 yn amlinellu'r materion allwedol ynghylch y ffurf a chynnwys adroddiadau ecolegol

Mae Rhan 3 yn adnabod y materion perthnasol a all fod angen eu hystyried mewn mathau arbennig o brosiectau neu ar adegau penodol mewn yng nghalendr prosiect datblygiad.

Rhan 1

Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o nodiadau cyngrhorol a dogfennau arweiniol ar gyfer datblygwyr, asiantau cynllunio, penseiri ac ymgynghorwyr ecolegol. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r gofynion lleiafsymiol ar gyfer adroddiadau ecolegol Awdurdod ParcCenedlaethol Eryri (APCE), mewn perthynas ag ystlumod a rhywogaethau eraill a ddiogelir yn y DG ac Ewrop, a gyflwynir fel rhan o geisiadau cynllunio.

Y bwriad yw defnyddio Canllawiau APCE ar gyfer adroddiadau ecoleg ar sail achos wrth achos er mwyn rhoi arweiniad i unigolion ac asiantaethau ynghylch y wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi APCE i wneud penderfyniadau ynghylch datblygiadau a'u heffaith ar rywogaethau a ddiogelir.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon

Ysgrifennwyd y ddogfen er mwyn cynorthwyo unrhyw un sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno neu roi arsylwadau ar gais cynllunio. Disgwylir y bydd datblygwyr, asiantau cynllunio, penseiri ac ymgynghorwyr ecolegol yn canfod fod y ddogfen yn arbennig o ddefnyddiol wrth baratoi adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer eu cyflwyno i APCE.

Pam fod angen yr arweiniad hwn

- Mae'n bwysig fod APCE yn gallu dangos yn glir ei fod yn cyflawni ei ofynion yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Nodyn Cyngor Technegol 5 – Cadwraeth Natur a Chynllunio) a'r ddeddfwriaeth berthnasol, a bod ceisiadau am ragor o wybodaeth yn cael eu gwneud er mwyn helpu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol

- Yn aml nid yw'r arolygon ystlumod, adroddiadau arolwg a'r cynigion ynghylch mesurau lliniaru a dderbynnir gan APCE yn darparu digon o wybodaeth i staff APCE i wneud penderfyniadau hyderus ynghylch y cynigion cynllunio hynny ac er mwyn sicrhau nad oes effaith andwyol ar Statws Gadwraeth Ffafriol unrhyw boblogaethau ystlumod a effeithir dros y tymor byr neu hir

- Mae tystiolaeth ddiweddar o Brosiect Peilot Lliniaru ar gyfer Ystlumod APCE (Waring 2011) wedi dangos na eir i'r afael â nifer o faterion sylfaenol yn y ddogfennaeth a gyflwynir fel rhan o gyflwyniadau sy'n

rhan o geisiadau cynllunio. Yn ychwanegol at hynny, yr oedd y Prosiect Peilot Lliniaru ar gyfer Ystlumod yn dangos y gallai'r achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth fod wedi cael eu hosgoi, mewn nifer o achosion trwy fabwysiadu dull arolwg, lliniaru a thechnegau adrodd mwy cadarn a chynhwysfawr

- Mae angen arweiniad penodol sy'n adlewyrchu natur arbennig PCE (e.e. y ffaith fod nifer o rywogaethau ystlumod yn digwydd yn aml ym MhCE, ymddygiad anragweladwy rhai o'r rhywogaethau, a'r ffaith fod rhai mathau penodol o ddatblygiadau gyda goblygiadau penodol ynghlwm iddynt yn digwydd yn aml o fewn PCE, er enghraifft trosi adeiladau amaethyddol a datblygiadau sy'n gysylltiedig gydag Adeiladau Rhestredig).

- Mae angen dangos fod gofynion APCE yn cydymffurfio gyda'r arweiniad ymarfer gorau cenedlaethol (e.e Canllawiau Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod 2007) gyda digon o gwmpasiad i alluogi rhesymoldeb clir i gael ei gyflwyno gan yr ymgynghorydd / ecolegydd pan fo arolwg, lliniaru ac adrodd yn dargyfeirio oddi wrth y canllawiau ymarfer gorau cenedlaethol

Dyletswydd fel Awdurdod Cymwys

Mae awdurdodau cynllunio lleol yn "Awdurdodau Cymwys" ar gyfer dibenion y Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Yn sgil hynny, mae gan ACLl ddyletswydd, wrth ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, i ystyried gofynion y Cyfarwyddyd Cynefinoedd cyn belled ag y gallant gael eu heffeithio gan yr ymarferiad o'r swyddogaethau hynny. Mae Canllawiau APCE ar gyfer adroddiadau ecolegol yn helpu i sicrhau fod APCE yn gallu gwneud penderfyniadau sy'n ystyried gofynion y Cyfarwyddyd Cynefinoedd.

Dyletswydd Awdurdodau Lleol o dan NERC 2006

Mae gan bob awdurdod cyhoeddus rwymedigaeth o dan Rhan 40 (1) o'r Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (ANChG) (a adwaenir fel y Ddeddf NERC) 2006 i sicrhau, wrth gyflawni eu swyddogaethau, ei fod yn ystyried, cyn belled a bod hynny'n gyson gyda chyflawni'r swyddogaethau hynny, tuag at y pwrpas o warchod bioamrywiaeth.'' Rhan 40 (3). Mae Canllawiau APCE ar gyfer adroddiadau ecoleg yn helpu i sicrhau fod APCE yn gallu gwneud penderfyniadau sy'n ystyried y pwrpas o warchod bioamrywiaeth.

Cysylltiadau rhwng y ddogfen hon a chanllawiau eraill

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chynllunio i gael ei defnyddio fel arweiniad sy'n sefyll ar ei ben ei hun ar gyfer awduron adroddiadau a'r rhai sy'n dymuno gwneud defnydd o adroddiadau yn y broses gynllunio. Mae cynnwys a phwyslais y ddogfen hon yn adlewyrchu canllawiau ac arweiniad eraill perthnasol yn y DG; ac mae hyn yn cynnwys:

Oxford, M. (2010) *Interactive Bat Protocol; Correct Decision-making Process For LPAs Determining Applications Where Bats Are Involved*. Ar ran Cymdeithas Cymru o Swyddogion Cynllunio, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2006) *Planning For Biodiversity And Geological Conservation – A Guide To Good Practice.* ODPM

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Polisi Cynllunio Cymru - Nodyn Cyngor Technegol 5 *5 - Cadwraeth Natur a Chynllunio.*

Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (2007) *Bat Surveys - Good Practice Guidelines*: Bat Conservation Trust, London.

Natural England (dim dyddiad) *Standing Advice Species Sheet: Bats*. Natural England, Peterborough

Gwybodaeth Gyfrinachol

Pan fo adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth ynghylch rhywogaethau sensitif neu wybodaeth arall a ystyrir yn gyfrinachol, dylid dod â hyn at sylw APCE a chael ei gynnwys fel atodiad neu fel dogfen ar wahân. Ni fydd dogfennau o'r fath yn cael eu rhoi gydag adroddiadau eraill fel deunydd hygyrch i'r cyhoedd ar wefan ACPE nac mewn ffeiliau cyhoeddus o'r fath.

Rhan 2

Ffurf

Mae APCE yn cydnabod y gall gwybodaeth gael ei adrodd ar wahanol ffurfiau gan gynnwys llythyrau cynghorol, dogfennau cwmpasu rhagarweiniol ac adroddiadau llawn, manwl. Mae APCE hefyd yn cydnabod fod y cyfrifoldeb dros ddewis ffurf adroddiad a chynnwys adroddiad yn gorwedd gyda'r datblygwyr a'u cynghorwyr.

Mae'r arweiniad yn y ddogfen hon yn briodol wrth gyflwyno adroddiad manwl llawn mewn perthynas â rhywogaethau a ddiogelir - e.e. lle daethpwyd o hyd i rywogaethau a ddiogelir yn y DG neu gan Ewrop ar safle datblygu dichonol, a rhagwelir y bydd neu y mae'r datblygiad yn debygol o greu tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth o ganlyniad i'w effaith ar rywogaethau a ddiogelir ac / neu nodweddion sy'n effeithio ar Statws Cadwraeth Ffafriol rhywogaethau a ddiogelir

Disgwylir i'r holl adroddiadau gynnwys gwybodaeth sy'n mynd i'r afael yn glir gyda'r meysydd pwnc â ganlyn, ond ddim o anghenraid wedi eu cyfyngu o dan y penawdau a ganlyn.

Crynodeb

Bydd y rhestr wirio arferol o bwyntiau allweddol yn cynnwys o leiaf y rhain:

- Manylion y cleient
- Gorolwg o'r arolwg
- Y rhywogaethau a ddiogelir a arsylwyd arnynt a thystiolaeth arall (e.e. arwyddion) a ganfuwyd
- Pwysigrwydd a photensial y safle i gefnogi rhywogaethau a ddiogelir
- Amlinelliad o'r cyngor a'r argymhellion

Egwyddor
Bydd raid i'r holl adroddiadau a gyflwynir alluogi APCE i ddatblygu gorolwg clir o wybodaeth, materion a gweithrediadau pwysig mewn perthynas ag ecoleg. Mae APCE yn disgwyl y bydd crynodeb yn adlewyrchu'r fanwl gywir weddill yr adroddiad heb gynnwys deunydd ychwanegol.

Crynodeb

Bydd y rhestr wirio arferol o bwyntiau allweddol yn cynnwys o leiaf y rhain:

- Manylion y cleient
- Cyfeirnod Cais Cynllunio. (os yw'n wybyddus) e.e. NPx/xx/xx
- Cyfeirnod Grid Cenedlaethol (lleiafswm o 8 ffigwr) e.g. SH xxxx xxxx
- Enw'r Eiddo
- Anheddiad Agosaf
- Amlinelliad o'r datblygiad arfaethedig

Egwyddor
Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau a gyflwynir roi disgrifiad manwl gywir i APCE o'r datblygiad arfaethedig. Bydd APCE yn gwirio fod y wybodaeth hon yn cyd-fynd gyda'r wybodaeth mewn dogfennau eraill, gan gynnwys datganiadau Dyluniad a Mynediad a manylebau'r prosiect. Bydd APCE yn disgwyl yn benodol gweld gwerthusiad o'r wybodaeth a oedd ar gael i'r Ecolegydd ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg a phan ysgrifennwyd yr adroddiad; bydd hyn yn galluogi APCE i wirio fod y dulliau, y dehongliad o'r canlyniadau, effeithiau a'r gwaith lliniaru wedi cael eu hystyried yn briodol.

Personél
Bydd y rhestr wirio arferol o bwyntiau allweddol yn cynnwys o leiaf y rhain:

- Enwau, profiad, cymwysterau, cymwyseddau a rhifau trwydded yr holl bersonél sydd a wnelo'r broses o gyflawni asesiad ecolegol o'r safle

Egwyddor
Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau a gyflwynir gynnwys digon o wybodaeth i alluogi APCE i benderfynu a oes gan yr holl bersonél sydd a wnelo'r cymwysterau, sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i : • Ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifiwyd • Adnabod y canlyniadau perthnasol o'r arolygon sy'n cael effaith / ardrawiad ar y datblygiad • Dehongli canlyniadau'r arolwg ac arwyddocâd yr effeithiau • Gwneud arfarniadau gwybodus ynghylch y cyngor a'r argymhellion priodol

Amcanion Arolygon
Bydd y rhestr wirio arferol o bwyntiau allweddol yn cynnwys o leiaf y rhain:

- Amcanion ar gyfer yr holl arolygon ecolegol

Egwyddor
Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno alluogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r sail a ddefnyddiwyd i gasglu a chyflwyno'r wybodaeth. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl y bydd pob rhan o adroddiad yn cael ei arwain gan restr gynhwysfawr o amcanion, ac adlewyrchu honno'n agos.

Methodoleg

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Manylion y technegau, y cyfarpar a'r dyddiadau ar gyfer yr holl arolygon
- Cyfeiriad at ddogfennau arfer gorau / arfer da i ddangos sut y mae'r dulliau a ddefnyddiwyd yn cydymffurfio neu'n gwahaniaethu (D.S.: mae angen sail resymegol pan fabwysiadwyd dulliau tra gwahanol)
- Nifer, lleoliad a sail resymegol ar gyfer trefnu'r arolygwyr (e.e. yn ystod arolygon ymddangosiad a dychweliad)

Egwyddor
Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno alluogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i farnu p'un a ddefnyddiwyd technegau a chyfarpar priodol ar gyfer pob agwedd ar brosiect ai peidio, gan gynnwys arolygon, dadansoddi a gwerthuso data. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl y bydd y dulliau'n adlewyrchu dogfennau arfer gorau / arfer da perthnasol, a phan nad yw hynny'n wir, bod esboniad clir yn cael ei gynnwys.

Disgrifiad o safle'r arolwg

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Lleoliad a chyd-destun y safle
- Disgrifiad o'r safle gan gynnwys nodweddion gorchudd tir (e.e. llystyfiant, nodweddion dŵr)
- Disgrifiad strwythurol o'r adeiladau, gan gynnwys deunyddiau, cyflwr, maint, ffactorau amgylcheddol (e.e. golau a thymheredd)
- Trefniant a nifer yr adeiladau (e.e. lleoliad, trefniant gofodol, a yw'n sownd neu ar wahân)
- Sut mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio

Egwyddor
Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno roi i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri safbwynt clir, diweddar a chywir o'r safle datblygu arfaethedig a, lle bo'n briodol, yr ardal yn union o'i amgylch, a'r ardal ehangach. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn sicrhau bod y disgrifiad yn yr adroddiad ecoleg yn cyd-fynd â'r hyn sydd mewn dogfennau eraill, gan gynnwys datganiadau Dylunio a Mynediad a darluniau penseiri. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl y bydd yr adroddiadau'n cynnwys digon o luniau (e.e. diagramau a ffotograffau) i ddangos union leoliad adeilad / coeden / nodwedd safle sy'n destun yr arolwg, ac yn cynnwys tystiolaeth o arolygon, cyflwr nodweddion priodol (e.e. strwythur adeiladau) a lleoliad a chyd-destun y pwyntiau arolygu.

Canlyniadau a dehongli arolygon

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Amodau'r tywydd, gan gynnwys paramedrau megis tymheredd, gorchudd cwmwl, gwynt, gwaddodiad e.e. arddwysedd a hyd yn ystod cyfrifon ymddangosiad / dychweliad.
- Arsylwadau ar rhywogaethau a warchodir
- Olion rhywogaethau a warchodir
- Dehongli'r canfyddiadau (e.e. mathau o glwyd ystlum sy'n bresennol, pwysigrwydd y safle ar gyfer rhywogaethau a warchodir, potensial y safle i gynnal rhywogaethau)

Egwyddor
Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno alluogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddatblygu dealltwriaeth glir o sut y mae'r canlyniadau'n perthyn i'r dulliau a ddefnyddiwyd a'r dystiolaeth y daethpwyd o hyd iddi. At hynny, rhaid ei bod hi'n bosibl i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri benderfynu a oes sail glir a chyfiawnadwy dros y dehongliad. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl i'r holl waith dehongli fod yn seiliedig yn y lle cyntaf ar y dulliau a ddewiswyd a chanlyniadau'r arolygon, ond bydd hefyd yn disgwyl y bydd yn adlewyrchu'r wybodaeth allanol (gan gynnwys dogfennau a gyhoeddwyd) lle bo hyn yn briodol.

Cyfyngiadau'r arolygon a'r fethodoleg

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Cyfyngiadau ar arolygon a dehongli (e.e. cyfyngiadau o ran amseriad, tywydd, mynediad, cyfarpar)

Egwyddor
Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno ddangos i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i'r cyfyngiadau. Felly, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn defnyddio gwybodaeth o ddulliau, canlyniadau a chasgliadau, yn ogystal â chyngor ac argymhellion.

Effeithiau

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Effeithiau ar wahanol adegau o'r datblygiad arfaethedig (tymor byr, hirdymor, ar ôl y datblygiad)
- Graddau'r effeithiau

Egwyddor
Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno gynnwys digon o wybodaeth i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri roi ystyriaeth lawn i effeithiau'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â deddfwriaethau a, lle bo'n briodol, canllawiau cynllunio. Lle bo Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop dan sylw, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl ei fod yn gallu barnu ynghylch Statws Cadwraethol Ffafriol ac Ymarferoldeb Ecolegol Parhaus, yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd mewn adroddiadau. Lle bo agweddau neu oblygiadau cyfreithiol yn perthyn i ddatblygiad arfaethedig e.e. mewn perthynas â Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl y rhoddir ystyriaeth lawn i'r rhain mewn adroddiadau. Cydnabyddir nad yw'r effeithiau bob amser yn glir neu'n hysbys adeg ymgymryd ag arolygon ecolegol ac adrodd amdanynt. Felly, gellir cynnwys asesiadau effaith fel atodiadau neu fel sail i adroddiadau ychwanegol. Lle bo adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am effeithiau, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl i'r adroddiadau hefyd ymdrin â mesurau lliniaru, digolledu a gwella.

Casgliadau

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Casgliadau sy'n deillio o bob rhan o arolwg, gwerthusiad ac asesiad effaith a gynhelir

Egwyddor
Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno fod yn ddigon clir i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ddeall sut y daethpwyd i'r casgliadau. Yn anad dim, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl i'r casgliadau adlewyrchu'r wybodaeth mewn canlyniadau, cyfyngiadau ac effeithiau. Lle bo agweddau neu oblygiadau cyfreithiol yn perthyn i ddatblygiad arfaethedig e.e. mewn perthynas â Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl y rhoddir ystyriaeth lawn i'r rhain yng nghasgliadau'r adroddiadau.

Cyngor ac argymhellion

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Cyngor ynghylch deddfwriaeth, cyfyngiadau'r gwaith arfaethedig, gofyniad am drwyddedau
- Cyfyngiadau'r cyngor (e.e. y cyfnod o amser y bydd canfyddiadau'r arolwg yn parhau i fod yn ddilys)
- Argymhellion ynglŷn â rheoli safle
- Sail resymegol ar gyfer yr holl gyngor ac argymhellion

Egwyddor
Rhaid i bob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno alluogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wahaniaethu rhwng cyngor ac argymhellion. Yn anad dim, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl i'r adroddiad fod yn ddigon clir i ddeall y berthynas rhwng canlyniadau, dehongli, effeithiau ac unrhyw gyngor ac argymhellion. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn disgwyl i'r sail dros gyngor ac argymhellion fod yn gwbl amlwg yn yr adroddiad, a lle bo'n briodol, bod yr amserlenni a'r cyfrifoldebau hefyd yn cael eu nodi'n glir.

Cyfeiriadau

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Y deunydd a ddyfynnir yn nhestun yr adroddiad.

Egwyddor
Lle bo cyfeiriadau at adnoddau mewn adroddiadau, ac y dibynnir arnynt, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl iddynt gael eu nodi'n glir yn y rhan hon o'r ddogfen.

Atodiadau

Isafswm cynnwys arferol / rhestr wirio o bwyntiau allweddol:

- Data crai (a gyflwynwyd ar ffurf sy'n hwyluso mewnbwn uniongyrchol i'r Ganolfan Cofnodion Lleol)
- Rhestrau o rywogaethau
- Gwybodaeth atodol

Egwyddor
Lle bo gwybodaeth wedi'i chynnwys yn yr atodiadau, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl iddi gael ei labelu'n glir i ddangos o ble y daeth (e.e. ecolegydd, datblygwr, pensaer) a lle bo'n briodol, rhif y fersiwn, cyfeiriadedd a'r raddfa. Lle bo darluniau a manylion y pensaer yn cael eu cynnwys, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl iddynt adlewyrchu sylwadau a manylion mewn adroddiadau ecolegol yn gywir e.e. trwy labelu ac anodiad priodol.

Rhan 3

Cyflwyno sawl adroddiad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cydnabod y bydd cynnwys adroddiadau ecolegwyr, gan gynnwys casgliadau, cyngor ac argymhellion, yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael adeg paratoi'r adroddiad. Cydnabyddir hefyd y gall cynlluniau datblygu gael eu paratoi fesul cam, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd ar gyfer cam nesaf y datblygiad. Er enghraifft, gall fod yn briodol i adroddiad arolwg ystlumod gael ei ddefnyddio i gynghori ynglŷn â dyluniad adeilad, a all wedyn gael ei ddefnyddio ar gyfer cynllun lliniaru.

Cydnabyddir hefyd y gall arolygon rhywogaethau a warchodir gael eu cynnal fesul cam (e.e. fel rhan o ddatblygiadau graddol) ac y gellir cyflwyno cyfres o adroddiadau gyda chyflwyniad cynllunio.

O ganlyniad i'r amgylchiadau uchod, fe all fod angen i ddatblygwyr a'u hasiantau gyflwyno cyfres o adroddiadau ecolegol, gan gynnwys dogfennau sy'n ymwneud ag arolygon a lliniaru.

Pan gyflwynir sawl adroddiad gyda chais cynllunio, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl y darperir llythyr eglurhaol neu gyffelyb i roi trosolwg clir o nifer, cynnwys, perthnasedd a'r berthynas rhwng adroddiadau.

Adroddiadau lliniaru

Lle bo adroddiadau'n cynnwys cynigion ar gyfer lliniaru (gan gynnwys digolledu a gwella), mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl sail resymegol gyfreithiol a / neu gadwraeth glir i gyd-fynd â phob elfen arfaethedig. Dylai'r adroddiadau alluogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddod i gasgliad clir, diamwys mewn perthynas â'r effaith ddisgwyliedig ar Statws Cadwraethol Ffafriol y rhywogaethau a warchodir, yn ogystal ag Ymarferoldeb Ecolegol Parhaus y nodweddion y mae'r rhywogaethau a warchodir yn dibynnu arnynt.

Lle bo darluniau neu fanylion pensaer yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau lliniaru neu ddatganiadau dull, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl i'r rhain gael eu anodi'n glir i ddangos eu bod yn cynnwys sylwadau ac argymhellion yr ecolegydd, a'u bod wedi'u gwirio gan ecolegydd y prosiect. At hynny, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn disgwyl i ddarluniau a manylion y pensaer gael eu croesgyfeirio er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth yn adroddiadau'r ecolegydd yn gywir.

Cydnabyddir efallai na fydd mesurau lliniaru, digolledu a gwella bob amser yn glir neu'n hysbys adeg ymgymryd ag arolygon ecolegol ac adrodd amdanynt. Felly, gellir cynnwys cynlluniau lliniaru fel atodiadau neu fel sail i adroddiadau ychwanegol.